

Cleddyf yr Ysbryd

“Derbyniwch helm iachawdwriaeth a chleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw.” (adn. 17)

Beth am ddarllen Effesiaid 6:10–20 ac yna myfyrio

Ddoe, bu i ni gyffwrdd â'r gwirionedd fod sawl bachgen a merch ifanc wedi mynd i goleg diwinyddol â golwg uchel ar y Beibl, ond wedi gadael yn ei amau. Clywais stori am fachgen ifanc a hyfforddwyd yn un o'r colegau hyn flynyddoedd yn ôl, ac yn ddiweddarach, cafodd ei apwyntio i fod yn weinidog yn un o gymoedd y de. Wrth iddo gychwyn pregethu, fe berswadiodd ei gynulleidfa nad oedd y Beibl mor berffaith ag yr oeddent hwy wedi ei gredu. Un Sul, dywedodd wrthynt fod y wyrth a gofnodir yn yr efengylau, lle mae Iesu yn troi y dŵr yn win yng Nghana, yn rhywbeth darluniadol yn hytrach na gwirionedd. Ei ddadl oedd bod presenoldeb Iesu yn gwneud i'r bobl gredu fod y dŵr yn win. O Sul i Sul wrth i'r gweinidog gwestiynu gwahanol rannau o Air Duw, fe benderfynodd hen wraig yn y gynulleidfa ymgrymu i'w wybodaeth gan dynnu allan y tudalennau hynny yr oedd yn eu dysgu eu bod yn anghredadwy. Yn y diwedd, doedd ganddi ond Beibl hanner maint yr un cyffredin. Fe gymerwyd y wraig yma yn sâl, ac fe aeth y gweinidog i edrych amdani. Gan weld y Beibl wrth ei gwely, fe ofynnodd iddi a fuasai'n dymuno iddo ddarllen iddi. Wrth iddi nodio ei phen mewn cydsyniad, fe estynnodd at y Beibl, gan synnu fod llawer o'r tudalennau wedi eu tynnu allan. “Nid yw hwn yn Feibl cyflawn,” meddai gyda syndod. “Yn anffodus, dyna'r cyfan yr ydych wedi ei adael i mi,” meddai'r wraig. Cafodd y gweinidog y fath fraw o wrando ar y wraig fel ei fod ar unwaith wedi syrthio ar ei liniau ac wedi cyffesu ei amheuo a'i wadiadau, gan newid ei agwedd yn gyfan gwbl at y Beibl.

Mae un peth yn gwbl glir: ni allwch ddefnyddio cleddyf yr Ysbryd os ydych wedi torri allan ddarnau helaeth ohono ar allor uwchfeirniadaeth. Petai gan Iesu unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r Ysgrythurau yr oedd yn eu defnyddio yn erbyn y diafol pan gafodd ei demtio yn yr anialwch, ni fyddem yn mwynhau'r iachawdwriaeth yr ydym yn ei mwynhau heddiw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 4:1–2; Heb. 4:12–13; Dat. 22:18–21

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Gair Duw fel cleddyf?
2. Pam fod angen i ni fod yn ofalus i beidio ychwanegu at na thynnu dim oddi wrth y Beibl?

Gweddi

O Dad, caniatâ hyder llwyr i mi yn y ffaith y gallaf glywed dy lais di yn llefaru wrth i mi agor fy Meibl. Cynorthwya fi hefyd i ddeall dy fod, nid yn unig wedi siarad yn y Beibl, ond dy fod ti yn dal i siarad trwy'r Beibl. Yn enw Iesu. Amen.